LEWIS ab EDWARD (fl. c. 1560), pencerdd

Enw: Lewis ab Edward
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pencerdd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: David James Bowen

o Fodfari, sir Ddinbych. Brodor oddi yno hefyd ydoedd Wiliam Tomos ab Edward, y copïydd a enwir yn Peniarth MS. 112 (509). Adweinid Lewis ab Edward hefyd fel Lewis Meirchion, ond nid yr un ydoedd â Lewis Môn (*fl.* c. 1480-1527), fel yr awgrymir weithiau. Dichon bod ei farwnad i Iemwnt Llwyd o Lynllifon (bu farw 1541) ymhlith ei weithiau cynharaf. Bu yn neithior Wiliam Llwyd ab Elisau o Riwaedog ac Elsbeth ferch Owain ap Siôn, Llwydiarth, 20 Hydref 1555, lle cyfansoddodd englynion dychan i Ruffudd Hiraethog (y 'cyff cler' yno). Graddiodd yn bencerdd yn eisteddfod Caerwys, 1568, a pherthyn felly i'r genhed'aeth olaf o'r prif benceirddiaid. Nid yw dyddiad ei farw'n hysbys, ond cynhwysir ef mewn marwnad i ugain o w r wrth gerdd a briodolir i Wiliam Ll n (bu farw 1580) ac i Siôn Tudur (bu farw 1602). Cyfeiria'r farwnad at ei ffraethineb a'i ddysg. Canodd i aelodau o deuluoedd Bodeon, Cochwillan, Glynllifon, Llyweni, Plas Newydd, a Rhiwaedog. Cyfeirir at ei lyfr achau yn Pen. MSS. 133, 134, a 135.

Awdur

Yr Athro David James Bowen

Ffynonellau

Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 81 (127), 121 (215), 147 (203)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 125: Poetry (32, 181)

N.L.W. *Swansea Manuscript* 1 (215)

Jesus College Manuscript yn Llyfrgell Bodleian, Rhydychen 15 (380)

NLW MS 6496 (138)

J. C. Morrice, *Barddoniaeth Wiliam Llyn* (1908)

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, i, 789

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Lewis ab Edward

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535766

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu